**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **18 GORFFENNAF 2013** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 MEHEFIN 2013** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2013 hyd at 30 Mehefin 2013.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 30 Mehefin 2013:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 12 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 1 |
| Archwiliadau Dilyniant | 3 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30 Mehefin 2013, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd – Trefn diswyddo oherwydd gormodedd | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 1 |
| System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Ariannol | B | Atodiad 2 |
| Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 3 |
| Ad-daliadau Treth Di-Annedd | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 4 |
| System Treth Di-Annedd - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 5 |
| Cymunedau'n Gyntaf - Estyniad i'r Hen Gynllun | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | B | Atodiad 6 |
| Neuadd Buddug, Y Bala | Economi a Chymuned | Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau | B | Atodiad 7 |
| Llwyddo'n Lleol | Economi a Chymuned | Sgiliau a mentergarwch | B | Atodiad 8 |
| Siopau Gwynedd | Gofal Cwsmer | Cyswllt Cwsmer | C | Atodiad 9 |
| Cefnogi Pobl | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Cefnogi Pobl | A | Atodiad 10 |
| Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Hamdden | C | Atodiad 11 |
| Gwireddu Prosiectau Arbed | Strategol a Gwella | Perfformiad a Chraffu | B | Atodiad 12 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd y gwaith canlynol, lle na roddwyd categori barn:

- **Cyfrannu at baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol** *(Corfforaethol),* Bu Archwilio Mewnol yn cymryd rhan unwaith eto eleni wrth baratoi'r Datganiad Llywodraeth Blynyddol ar gyfer Cyngor Gwynedd, sydd yn destun adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor. Cyfranodd Archwilio Mewnol hefyd i ddatblygiad Datganiad cyfatebol ar gyfer y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, sydd angen eu Datganiad Llywodraethu eu hunain (ynghyd â Datganiad o Gyfrifon) yn unol â gofynion y Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|
| Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol - Cywirdeb Data Craidd | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | **Rhagorol** |
| Trefniadau Ymdrin â Gohebiaeth | Corfforaethol | **Derbyniol** |
| Gweinyddu Anfonebau cyn eu pasio i'r Uned Taliadau | Corfforaethol | **Derbyniol** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2013**

Cyfarpar gan Cyn-aelodau
Telerau Contractau - Gwiriadau DBS
Gwiriadau DBS Staff
Trefniadau TG i aelodau
Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth
Cofnodi a Rheoli Gwyliau

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2013**

Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden
Prosesu Data Cyflenwyr Ynni

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2014**

Siopau Gwynedd

Rheoli Newid i Systemau TG

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Gorffennaf 2013.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Rheoli cyllidebau cynnal adeiladau Ysgolion Uwchradd - gwerth am arian *(Addysg)*
- Ysgolion Uwchradd - Rheolaeth Gyllidebol *(Addysg)*
- Y Gwasanaeth Cynllunio *(Rheoleiddio)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Ysgolion Uwchradd - Diogelwch Gwybodaeth *(Addysg)*
- Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Y Drefn Gwynion Corfforaethol *(Corfforaethol)*
- Grant Gwisg Ysgol *(Cyllid)*
- Rhoddion a Lletygarwch Aelodau *(Democratiaeth a Chyfreithiol)*
- Canolfannau Croeso *(Economi a Chymuned)*
- Eiddo'r Cyngor - Offer Ymladd Tân *(Gofal Cwsmer)*
- Trwyddedau Meddalwedd (Corfforaethol) *(Gofal Cwsmer)*
- Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion) *(Gofal Cwsmer)*
- Costau Teithio Gweithwyr Cefnogol *(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden)*
- Taliadau Uniongyrchol *(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden)*
- Dilyniant - Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth *(Gofal Cwsmer)*
- Gweithiau Adenilladwy *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Hyfforddi Aelodau *(Strategol a Gwella)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2013 i 30 Mehefin 2013, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# YSGOLION CYNRADD – TREFN DISWYDDO OHERWYDD GORMODEDD
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod ysgolion cynradd perthnasol Gwynedd yn cydymffurfio â chanllawiau gweithredu'r Cyngor yn ogystal â'r gyfraith wrth gymryd camau diswyddo oherwydd gormodedd.

Cwmpas yr Archwiliad
Dewiswyd sampl o 5 ysgol cynradd yng Ngwynedd a oedd wedi mynd drwy'r broses diswyddo oherwydd gormodedd yn ddiweddar yn ogystal â sampl o ysgolion sydd yng nghanol y broses ar gyfer yr archwiliad.

Prif Ddarganfyddiadau
Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd bod 4 o'r ysgolion yn y sampl a archwiliwyd wedi dilyn y drefn diswyddo oherwydd gormodedd yn unol â'r canllawiau a'r amserlenni priodol. Er hynny, gwelwyd fod wedi yr ysgol arall wedi methu ymlynnu at yr amserlen ar gyfer anfon gohebiaeth a rhai o'r camau diswyddo eraill. Gwelwyd fodd bynnag, fod yr Adran Addysg wedi ymyrryd yn y broses yn yr ysgol hon mewn modd disgwyliedig er mwyn adfer y sefyllfa.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y drefn diswyddo oherwydd gormodedd mewn ysgolion cynradd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod cyfarfodydd o'r corff llywodraethol yn cael eu cynnal yn rheolaidd o leiaf unwaith y tymor, ac os nad yw hyn yn bosibl dylid adrodd ar y mater yn syth i'r Adran Addysg.**

- **Dylid sicrhau bod gan bob ysgol ffurflen buddiant busnes cyfredol ar gyfer pob aelod o'r corff llywodraethol a dylid eu diweddaru'n flynyddol drwy ddosbarthu'r ffurflenni yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn.**

- **Dylai Penaethiaid gysylltu yn syth â'r Uned Gyllid a'r Uwch Swyddog Gwella Ansawdd Addysg pan maent yn adnabod yr angen i ddilyn y drefn diswyddo oherwydd gormodedd, er mwyn gychwyn y broses diswyddo cyn gynted â phosibl.**

- **Dylid sicrhau fod Penaethiaid yn cydymffurfio â'r canllawiau 'Diswyddo Oherwydd Gormodedd' wrth gwblhau'r camau diswyddo, gan sicrhau eu bod yn gweithredu'r camau yn unol â'r amserlen briodol.**

## SYSTEM DYLEDWYR - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol.**

Caiff trefniant y system dyledwyr ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y ddyletswydd o godi anfonebau ar gwsmeriaid wedi eu dynodi i swyddogion awdurdodedig gyda'r wybodaeth yn ymddangos yn y cyfriflyfr yn gyflawn yn ogystal â'r incwm mae'r Cyngor yn ei dderbyn, gyda chysoniad yn cael ei gwblhau. Hefyd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle dros adennill a dileu dyledion gyda gwybodaeth yn cael ei ddarparu i reolwyr.

Cwmpas yr Archwiliad

Profi agweddau o'r trefniadau sy'n berthnasol i'r System Dyledwyr.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod prosesau, gweithdrefnau a gwahaniad dyletswyddau priodol mewn lle ar gyfer casglu dyledion. Fodd bynnag, nodwyd gan Hafan Pwllheli weithdrefnau sydd ar wahân i'r drefn gorfforaethol gyda'r trafodion yn cael eu bwydo i'r prif system gyfrifo ar ddiwedd pob mis. Mae angen addasu y broses ar gyfer dileu dyledion er mwyn sicrhau bod awdurdodiad priodol ym mhob achos yn unol â gofynion Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Adolygwyd sampl o ddyledion o'r system gorfforaethol oedd wedi eu dileu yn ystod 2012/13 a gwelwyd fod y camau priodol wedi eu cymryd a'r awdurdodaeth am ddiddymu yn unol â'r disgwyl.

Gwelwyd fod prosesau i sicrhau cysondeb rhwng y modiwl dyledwyr a'r prif gyfriflyfr.

Gwelwyd fod proses ar gyfer adennill dyledion wedi ei ddogfennu yn swyddogol, fodd bynnag nodwyd nad oedd yn ymarferol ar gyfer nifer o'r achosion sydd yn dod ger bron y Gwasanaeth Adennill.

Byddai yn deg nodi fod y Gwasanaeth Incwm yn gweithredu yn y modd maent yn barnu i fod mwyaf tebygol o adennill dyledion y Cyngor, fodd bynnag fe fyddai hefyd yn deg nodi bod sgôp i sicrhau fod adnodd cyfreithiol yn cael ei ddefnyddio mewn mwy o achosion lle mae hynny'n briodol.

### Barn yr Archwiliad

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid adolygu y trefniadau sydd mewn lle ar gyfer dileu dyledion sydd yn ymwneud â Hafan Pwllheli gan sicrhau fod pob achos o ddileu dyled yn cael ei awdurdodi cyn ei weithredu yn unol â disgwyliadau Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.**

# PRIF SYSTEM GYFRIFO - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilwydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol.**

Caiff y prif system gyfrifo ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Cwmpas yr Archwiliad

'Roedd yr adolygiad yma yn canolbwyntio ar reolaethau cynnal y prif system gyfrifo a thrafodion 2012/13.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod y rheolaethau allweddol a adolygwyd mewn lle ar gyfer y prif system gyfrifo. Gwelwyd bod mesurau mewn lle i wahaniaethu dyletswyddau yn seiliedig ar rolau, gwasanaethau a lefelau awdurdodi. Mae hawliau mynediad i'r system yn cael ei rheoli yn ganolog, a gwelwyd fod proses blynyddol o adolygu hawliau defnyddwyr, er hysbysu gan reolwyr gwasanaethau o unrhyw angen i addasu yw'r drefn fwyaf effeithiol.

Mae gweithdrefnau mewn lle i fonitro cyllidebau ac adrodd am amrywiadau. Nodwyd rhai esiamplau o gyllidebau yn cael eu mewngofnodi ar ôl y terfyn amser a bennwyd gan weinyddwyr y system ond 'roedd pob eitem yn ein sampl wedi eu mewngofnodi erbyn adeg monitro gwariant y chwarter cyntaf.

Mae prosesau diwedd cyfnod mewn lle i sicrhau cywirdeb trosglwyddiadau balansau a thrafodion. Mae gweithdrefnau mewn lle i reoli a chysoni'r system gyda chyfriflenni banc, trosglwyddiadau o systemau bwydo a chyfrifon rheolaethol er mwyn sicrhau cywirdeb a phriodoldeb.

## Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

## AD-DALIADAU TRETH DI-ANNEDD
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol yn bodoli yn y broses o ad-dalu trethi di-annedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Dethol sampl o ad-daliadau trethi di-annedd a wnaethpwyd ym mlwyddyn ariannol 2012-13 a sicrhau bod prosesau priodol dros awdurdodi, cysoni a chynnal gwiriadau yn bodoli.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaeth fewnol dda yn bodoli yn y broses o weinyddu ad-daliadau trethi di-annedd. Edrychwyd ar y broses o greu ad-daliad a gwelwyd bod proses briodol o wahanu dyletswyddau yn bodoli. Yn ogystal â hyn, gwelwyd bod gwybodaeth wedi ei fewnbynnu'n gywir i'r system a bod cysoniadau'n cael eu cynnal rhwng y cyfriflyfr, y system derbyn taliadau a'r System Academy ar sail dyddiol a misol a bod y cysoniadau wedi eu hawdurdodi'n briodol.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Ad-daliadau Treth Di-Annedd gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# SYSTEM TRETH DI-ANNEDD - ADOLYGIAD O REOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:
**"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".**
Caiff y system Treth Di-Annedd ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod biliau Treth Di-Annedd wedi cael eu prosesu'n gywir ac yn unol â'r gwerthoedd trethiannol sydd wedi eu gosod gan y Swyddfa Brisio a bod prosesau priodol ar gyfer eu casglu, cofnodi a monitro'r taliadau.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu a phrofi bod canllawiau, cofnodion a gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer rheoli, casglu a chofnodi Treth Di-Annedd 2012-13.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd bod rheolaeth fewnol dda yn bodoli o fewn y rheolaethau allweddol yn ymwneud â threfniadau gweinyddu'r dreth di-annedd. Mae hyn yn cynnwys trefniadau cysoni gwybodaeth briodol rhwng systemau'r Cyngor a gyda'r Swyddfa Brisio, proses briodol o ad-dalu pan fo credyd ar gyfrif yn ogystal â phrosesau adennill a dileu dyledion mewn lle.

Mae'r swyddogion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bod yn annibynnol o'r busnesau lle'n briodol ac mae proses o wahanu dyletswyddau hefyd yn bodoli.

Nodir bod y Gwasanaeth wedi rhagori ar eu targedau perfformiad ar gyfer y flwyddyn 2012-13.

Gwelwyd bod gwendid mewn un maes lle mae ceisiadau i dalu'r dreth di-annedd drwy'r Cynllun Taliadau Gohiriedig wedi eu llwytho i'r System DIP gyda'r nodyn "No Action Required". Golyga hyn nad oedd y ceisiadau yma yn ymddangos yn llwyth gwaith y swyddogion perthnasol ac felly bod diffyg gweithrediad yn dilyn y cais.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn System Treth Di-Annedd - Adolygiad o Reolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Fodd bynnag, cynigir un argymhelliad er mwyn cryfhau'r trefniadau ymhellach:**

- **Dylid sicrhau bod y swyddogion sy'n gyfrifol o lwytho dogfennau i'r system DIP yn ymwybodol bod angen nodi ceisiadau i dalu drwy'r Cynllun Talu Gohiriedig gyda'r angen i weithredu, pe bai'r cynllun ar gael eto yn y dyfodol.**

## CYMUNEDAU'N GYNTAF - ESTYNIAD I'R HEN GYNLLUN
### Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu estyniad arian trosiannol y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae'r archwiliad yn canolbwyntio ar y trefniadau a'r rheolaethau yn y meysydd canlynol:
- Fod swyddog priodol ar ran Cyngor Gwynedd yn derbyn y cynnig grant.
- Fod cydymffurfiaeth â llythyr cynnig y grant yn ogystal â thelerau ac amodau'r grant.
- Fod tystiolaeth priodol yn bodoli i gefnogi y defnydd a wnaethpwyd o'r arian grant.
- Fod ceisiadau priodol yn cael eu gwneud i Lywodraeth Cymru am yr arian grant.

Prif Ddarganfyddiadau

Roedd cais un gymuned ar gyfer arian diswyddo staff. Derbyniwyd anfoneb ddyddiedig 04/10/2012 gan y bartneriaeth yn enwi'r staff ac yn nodi'r ffigyrau diswyddo, ond ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r ffigyrau megis copïau o lythyrau diswyddo'r staff.

Bu i'r archwiliwr hysbysu'r Swyddog Monitro Cymunedau'n Gyntaf yn ystod yr archwiliad y dylid cysylltu â'r bartneriaeth a cheisio cael copïau o'r llythyrau diswyddo. Deëllir bod y Swyddog Monitro wedi cysylltu gyda Cadeirydd y Bartneriaeth i ofyn am gopïau o'r llythyrau ond heb fod yn llwyddiannus.

Ar ddiwrnod yr archwiliad ymddengys bod mwy o arian wedi ei hawlio mewn ceisiadau ar gyfer gwariant canolog na'r hyn a oedd wedi cael ei wario. Mynegodd y Swyddog Monitro Cymunedau'n Gyntaf y bydd y Cyngor yn adrodd ar y tanwariant i Lywodraeth Cymru cyn 15 Gorffennaf 2013 drwy gwblhau ffurflen CF8.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth estyniad arian trosiannol 1/10/2012 – 31/1/2013 y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf gan fod rheolaethau mewn elle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Swyddog Monitro Cymunedau'n Gyntaf gadw copïau ar ffeil o'r e-byst mae wedi eu hanfon yn ymdrechu i gael copïau o'r llythyrau diswyddo.**
- **Dylid sicrhau yn y dyfodol os oes achos o'r fath yn codi nad yw'r Cyngor yn talu unrhyw arian drosodd i fudiadau allanol heb dderbyn y dystiolaeth briodol yn gyntaf.**
- **Dylid sicrhau fod trefniadau yn cael eu gwneud i anfon y ffurflen CF8 i Lywodraeth Cymru cyn 15 Gorffennaf 2013.**

## NEUADD BUDDUG, Y BALA
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn Neuadd Buddug er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol, ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl cofnod yng nghyfriflyfr y Cyngor ar gyfer 2012/13. Profwyd hefyd trefniadau'r Neuadd er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd bod trefniadau yn gyffredinol dda yn y Neuadd, ond bod angen symud ymlaen i ddiweddaru yr asesiadau risg cyn gynted â phosibl.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Neuadd Buddug, Y Bala gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod staff Neuadd Buddug yn anfon manylion y tocynnau maent wedi eu dosbarthu yn ogystal â darlleniadau 'z' y tiliau ymlaen i swyddfa Pwllheli ynghyd â'r taflenni TR34 'Derbyniadau a Bancio'.**

- **Dylid sicrhau fod cytundeb yn bodoli rhwng y Neuadd a phob llogwr sydd yn llogi'r Neuadd yn cyfeirio at delerau ac amodau'r llogi.**

- **Dylid tynnu sylw'r Pennaeth Adran at bennawd cyllidol 8690 Rhent-Tir/Adeiladau Cyffredinol a gofyn am ganiatâd i drosglwyddo'r gyllideb i bennawd cyllidol arall o fewn y Gwasanaeth/Adran.**

- **Dylid symud ymlaen i gwblhau'r adolygiadau ar yr asesiadau risg cyn gynted â phosibl a dylid wedyn eu hadolygu yn flynyddol.**

# LLWYDDO'N LLEOL
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle gan y Cyngor yn ei rôl fel arweinydd rhanbarthol y cynllun Llwyddo’n Lleol yng Ngogledd Cymru, a bod y rheolaethau yma yn ddigonol i ofynion WEFO.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio bod cytundeb mewn lle rhwng y partïon perthnasol ar delerau, amodau a chanllawiau'r grant Llwyddo’n Lleol yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â thrydydd partïon a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i fodloni amcanion y cynllun yng Ngwynedd. Gwirio bod y Cyngor yn cydymffurfio â’r uchod yn ei rôl fel arweinydd y cynllun rhanbarthol, a’i bod yn goruchwylio awdurdodau eraill yn ogystal ag unrhyw trydydd partïon a defnyddiwyd yng Ngwynedd. Gwirio bod y cynllun yn cael ei dargedu at y preswylwyr cywir yng Ngwynedd, gyda cheisiadau yn cael eu hasesu mewn modd teg a thryloyw, bod rheolaeth dros wariant y cynllun a bod y Cyngor yn cydymffurfio â’r Ddeddf Diogelu Data.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer rheoli a monitro’r cynllun Llwyddo’n Lleol gan Cyngor Gwynedd. Mae’r trefniadau yma yn cynnwys rheolaeth dros yr Awdurdodau eraill yn y cynllun rhanbarthol yng Ngogledd Cymru lle mae Cyngor Gwynedd yn arwain ar y cynllun. Er hyn, gwelwyd nad oedd un cytundeb gyda chontractwr wedi cael ei arwyddo gan gynrychiolydd y Cyngor a’i dyddio, ac nad oedd addasiadau i gytundebau gyda contractwr wedi cael eu cadarnhau’n arwyddedig gan gynrychiolwr o’r contractwr a Chyngor Gwynedd. Yn ogystal, gwelwyd nad oes trefniadau mewn lle i fonitro prosiect bwrsariaeth o’r cynllun am gyfnod o 5 mlynedd ar ôl dyddiad taliad olaf y grant gan WEFO. Mae hyn yn un o amodau cytunedig y grant gan WEFO. Bydd hyn yn cael ei wneud gan yr Adran Economi a Chymuned yn nes at amser taliad olaf y grant gan WEFO yn 2015.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Llwyddo'n Lleol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid addasu geiriad amod 10 (Archwilio) o’r ‘Cytundeb Bwrsariaeth Llwyddo’n Lleol’ i ddweud fod buddiolwyr yn destun i fonitro am gyfnod o 5 mlynedd o ddyddiad taliad olaf y grant Llwyddo’n Lleol gan WEFO.**

- **Dylid sefydlu trefniadau i fonitro’r prosiect bwrsariaeth am gyfnod o 5 mlynedd ar ôl dyddiad taliad olaf y grant Llwyddo’n Lleol gan WEFO, er mwyn sicrhau bod buddiolwyr yn cydymffurfio ag amodau’r grant Llwyddo’n Lleol.**

- **Dylid sicrhau bod cytundebau sy’n cael eu sefydlu gyda chontractwyr wedi cael eu harwyddo a’u dyddio gan gynrychiolydd perthnasol o Gyngor Gwynedd.**

# SIOPAU GWYNEDD
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau mewn lle i alluogi Siopau Gwynedd i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i aelodau'r cyhoedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o'r trefniadau sydd mewn lle ym mhob safle Siop Gwynedd, drwy drafod gyda'r swyddogion perthnasol yn y safleoedd ac adolygu'r deunyddiau sydd ar gael ynghyd â gwirio cofrestrau a dogfennaeth incwm.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod gwybodaeth gyfredol ar ffurf pamffledi, ffurflenni neu cylchgronau ym mhob o dair Siop Gwynedd ac yn hygyrchol i'r cyhoedd. Gwelwyd bod ymwelwyr sydd yn cyfarfod yn yr adeiladau yn llofnodi cofnod i mewn ac allan o'r adeilad ond nid oedd trefniant ar gyfer eu hysbysu am drefniadau mewn achos o dân, h.y. os oes ymarferiad tân wedi ei gynllunio ynghyd â mannau cyfarfod mewn achos o argyfwng.

Y prif wendid a ddarganfuwyd yn ystod yr archwiliad oedd diffyg trefniadau yn y broses o dderbyn, cofnodi a bancio incwm. Nid oedd Siop Gwynedd Caernarfon wedi derbyn fflôt serch ei bod wedi bod ar agor i'r cyhoedd ers mis Ionawr 2013. Dengys bod gwendidau wrth lunio cynllun prosiect Siop Gwynedd Caernarfon oherwydd bu i sawl ffactor hanfodol gael eu methu - mae hyn yn cynnwys methiant i ddarparu hyfforddiant priodol i'r staff ar faterion megis trefniadau ariannol a methiant i ddarparu iddynt y ddogfennaeth briodol ar gyfer cofnodi a bancio incwm.

Mae Arweinydd Tîm Siop Gwynedd a'r Hyfforddai Proffesiynol Cyswllt Cwsmer bellach wedi derbyn hyfforddiant ar sut i lenwi ffurflenni derbyn incwm ac mae trefniadau ar y gweill i sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei raeadru i holl staff Siopau Gwynedd yn y dyfodol agos. Yn ogystal, mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda Archwilio Mewnol i sicrhau bod trefniadau cadarn ac eglur yn cael eu sefydlu ar gyfer bancio incwm drwy dynnu haenau di-angen o'r broses. Dywedodd y Rheolwr Cyswllt Cwsmer, yn dilyn sefydlu'r trefniadau bancio arfaethedig, y buasai yn gwerthfawrogi petai Archwilio Mewnol yn ymweld â Siopau Gwynedd yn ddi-rybudd i sicrhau bod eu trefniadau yn unol â'r disgwyl.

O safbwynt gofal cwsmer, mae angen gwella trefniadau derbyn adborth gan gwsmeriaid i alluogi staff a rheolwyr y siopau i adnabod gwendidau a cryfderon y gwasanaeth. Hefyd, mae angen gwneud yn siwr bod staff yn derbyn hyfforddiant ar sut i ddelio gyda cwynion gan ymwelwyr, gan gynnwys hyfforddiant ar sut i gofnodi cwynion a wneir ar lafar.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Siopau Gwynedd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai pob aelod o staff sydd yn gweithio yn Siopau Gwynedd dderbyn hyfforddiant priodol ar gyfer eu galluogi i gyflawni pob agwedd o'u dyletswyddau.**

- **Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer cadw incwm a'r trefniadau bancio a diddymu'r ymarfer o drosglwyddo'r incwm i'w fancio i'r Gwasanaethau Cefnogol.**

# CEFNOGI POBL
## Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaeth fewnol briodol mewn lle wrth weinyddu'r Cynllun Cefnogi Pobl.

Cwmpas yr Archwiliad
Sicrhau bod trefniadau mewn lle i weinyddu'r cynllun Cefnogi Pobl drwy edrych ar sampl o ddarparwyr sydd yn rhan o'r cynllun, taliadau a wnaethpwyd, a rheolaeth gyllidebol y cynllun a gwirio bod trefniadau yn eu lle i unigolion perthnasol fynychu cyfarfodydd Cefnogi Pobl gan ddilyn y canllawiau newydd sydd mewn lle ers 2012.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod ymarfer da mewn gweinyddu'r grant Cefnogi Pobl. Gwelir bod gan y Gwasanaeth ganllawiau a dogfennau perthnasol a gafodd eu cyhoeddi yn 2012 gan Llywodraeth Cymru.
Edrychwyd ar sampl o gytundebau a rheolaeth ffeiliau papur ac electroneg a gwelir bod y rheolaeth o safon uchel iawn. Gwelir bod trefniadau cryf mewn lle i weinyddu taliadau'r gwasanaeth a bod rheolaeth gyllidebol briodol mewn lle. Gwelir bod trefniadau rheolaeth Gwasanaeth Cefnogi Pobl o safon uchel iawn. O ganlyniad nid oes argymhelliad i'w ystyried yn dilyn yr adolygiad yma.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Cefnogi Pobl gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# TREFNIADAU BANCIO YN Y CANOLFANNAU HAMDDEN
## Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli wrth fancio arian yn y Canolfannau Hamdden er mwyn lliniaru'r risgiau gweithredol, a bod y rheolaethau hyn yn cael eu gweithredu.

Cwmpas yr Archwiliad
Dewiswyd sampl o bum Canolfan Hamdden ar draws y Sir i wirio eu trefniadau bancio. Y canolfannau hyn oedd Canolfan Hamdden Plas Ffrancon yn Bethesda, Canolfan Tennis yn Caernarfon, Canolfan Hamdden Glaslyn yn Porthmadog, Y Pafiliwn yn Abermaw, a Pwll Nofio Bro Ffestiniog yn Blaenau Ffestiniog. Ar gyfer y Canolfannau hyn, adolygwyd sampl o ddiwrnodau yn ystod blwyddyn ariannol 2012/2013 a gwirio'r bancio a gyflawnwyd ar y dyddiadau hyn.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelir bod enghreifftiau o ymarfer da a rheolaeth gadarn oddi fewn trefniadau bancio yn rhai o'r Canolfannau Hamdden. Fodd bynnag, gwelir bod nifer o'r meysydd a archwiliwyd angen sylw pellach. Un ohonynt yw atgoffa swyddogion bod angen dau aelod o staff i arwyddo dogfennau perthnasol. Mae nifer o gamgymeriadau wedi eu darganfod ac oherwydd hyn dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn y Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod gan Canolfan Hamdden Glaslyn gopi diweddaraf o'r IMS.**
- **Dylid sicrhau bod Pwll Nofio Bro Ffestiniog yn cynhyrchu'r adroddiadau misol fel sydd wedi ei nodi yng nghanllawiau IMS.**
- **Dylid atgoffa swyddogion Canolfannau Hamdden bod angen dau i arwyddo'r dogfennau perthnasol.**
- **Dylid sicrhau bod Canolfan Hamdden Plas Ffrancon yn rhoi'r codau byr cywir i lawr ar yr TR34.**
- **Mae angen atgoffa Canolfannau Hamdden y dylid gyrru copi o bob TR34 perthnasol i'r Adain Incwm.**
- **Dylid atgoffa swyddogion y canolfannau ei bod yn bwysig bod dau swyddog yn arwyddo'r dogfennau perthnasol megis Taflen Cofnodi Bancio a llyfr talu i mewn ar bob achlysur.**
- **Dylid cysylltu gyda'r cwmni diogelwch yn syth os nad ydynt wedi casglu yr arian ar y diwrnod arferol a bod cofnod o'r trafodaethau yn cael eu cofnodi. Dylid hefyd gael cynllun wrth gefn mewn achosion o' r fath.**
- **Angen atgoffa'r swyddogion eu bod angen gwneud darlleniadau 'z' ar bob achlysur a dogfennau perthnasol angen ei arwyddo gan ddau swyddog.**

# GWIREDDU PROSIECTAU ARBED
## Strategol a Gwella

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol cadarn yn bodoli o fewn yr adrannau i liniaru'r risgiau all rwystro i wireddu amcanion cynlluniau arbedion ac arwain at fethiant i gyrraedd targedau.

Cwmpas yr Archwiliad

Detholwyd sampl o gynlluniau a sicrhau bod trefniadau addas ar gyfer eu rheoli, ynghyd â'r trefniadau monitro ac adrodd. Roedd ffocws yr archwiliad ar gynlluniau cwantwm arbedion £16m, cynlluniau effeithlonrwydd a chynlluniau trawsadrannol. Nid oedd yr archwiliad yn cwmpasu cynlluniau arbedion Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Darparu a Hamdden oherwydd eu bod yn destun archwiliad ar wahân. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar weithrediad o fewn yr adrannau, yn hytrach na threfniadau'r Bwrdd Gwireddu Arbedion.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae trefn rheoli prosiect yn cael ei ddilyn gan y swyddogion sydd yn ymgymryd â'r cynlluniau arbedion, er ei fod ar delerau llac mewn rhai sefyllfaoedd. Derbynnir fod angen bod yn gymesur wrth ddefnyddio methodoleg fiwrocrataidd wrth redeg prosiectau, ac ar y cyfan gwelwyd fod y trefniadau rheoli prosiect a ddefnyddir yn briodol wrth ystyried maint y prosiectau. Nid yw pob arbediad yn cael ei ystyried fel prosiect neu weithgaredd o brosiect, e.e. lleihad yn y gyllideb, ac felly nid oes angen gor-bwysleisio ar y drefn ffurfiol o reoli prosiect oherwydd nid yw pob cam o'r gyfundrefn yma yn berthnasol ar gyfer pob prosiect. Gwelwyd enghraifft o hyn yn ein sampl; nid oedd yr holl ddogfennaeth arferol yn bodoli ond roedd dogfennau eraill ar gael gyda'r wybodaeth angenrheidiol. Roedd hyn yn adlewyrchu pryderon Adrannau y gallai'r broses fod yn orfiwrocrataidd pe byddent yn dilyn pob cam o'r fethodoleg rheoli prosiect ar gyfer prosiectau bychain.

Bu pryder ynglyn â chysondeb adroddiadau adrannau i fwy nag un panel neu fwrdd gydag aelodau gwahanol, ac nad oedd gwir sefyllfa neu statws prosiectau yn gyson gan fod cofnod gwahanol yn cael ei gyflwyno gan wahanol swyddogion. Fodd bynnag, mae'r Swyddog Prosiect Effeithlonrwydd sydd yn cyfarfod gyda'r Penaethiaid yn rheolaidd i fonitro cynnydd y prosiectau hefyd yn eistedd ar y Bwrdd Gwireddu Arbedion. Mae hyn yn rhoi sicrhad bod y gwir sefyllfa yn cael ei adrodd. Hefyd mae aelod o'r Tîm Cyllid canolog yn mynychu'r cyfarfodydd yma er mwyn sicrhau bod cysondeb yn yr hyn a adroddir o ran gwireddu arbedion ariannol. Bydd y bwrdd yna yn adrodd i'r Panel Cyflawni ble caiff cynnydd, llithriadau a methiannau eu trafod gyda'r Aelod Cabinet perthnasol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb cynlluniau adrannol o wireddu'r arbedion gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o drefn Rheoli Prosiect y Cyngor, ond yn ei ddefnyddio mewn ffordd sydd yn gymesur â maint y prosiect.**